



# Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Lefel Arian

Ebrill 2021



# Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Lefel Arian

## Cynulleidfa

Sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuencid yng Nghymru.

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y safonau ansawdd, dangosyddion a disgrifyddion gradd ar gyfer Lefel Arian y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru, ac yn darparu gwybodaeth i sefydliadau ei defnyddio wrth gwblhau templed hunanasesu sydd ar gael gan y contractiwr. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd ag *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Cyflwyniad a chanllawiau*.

## Camau i'w cymryd

Gall sefydliadau ddefnyddio'r Safonau Ansawdd Lefel Arian hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuencid neu i arwain y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am Lefel Arian y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuencid

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [gwaithieuencid@llyw.cymru](mailto:gwaithieuencid@llyw.cymru)

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/marc-ansawdd-gwaith-ieuencid](http://llyw.cymru/marc-ansawdd-gwaith-ieuencid)

## Dogfennau cysylltiedig

*Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Cyflwyniad a chanllawiau* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Lefel Efydd* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Lefel Aur* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer aseswyr* (2021).

## **Cynnwys**

<b>Cyflwyniad i Lefel Arian y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru</b>	<b>2</b>
<b>Safonau Ansawdd y Lefel Arian</b>	<b>3</b>
<b>Safon Ansawdd: 2.1 Cynnwys pobl ifanc</b>	<b>6</b>
<b>Safon Ansawdd: 2.2 Cwricwlwm</b>	<b>12</b>
<b>Safon Ansawdd: 2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth</b>	<b>18</b>
<b>Safon Ansawdd: 2.4 Datblygu'r gweithlu</b>	<b>23</b>
<b>Crynodeb a'r camau nesaf</b>	<b>29</b>

## Cyflwyniad i Lefel Arian y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru

Mae'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru (y cyfeirir ato er mwyn hwyluso darllen y ddogfen hon fel 'y Marc Ansawdd') yn adnodd unigryw ar gyfer hunanasesu, cynllunio gwelliant ac ennill Marc Ansawdd ar gyfer gwaith ieuencid. Mae wedi'i rannu'n dair lefel – Efydd, Arian ac Aur. Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i Lefel Arian y Marc Ansawdd.

Mae Lefel Arian y Marc Ansawdd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith ieuencid yn cydnabod ac yn hyrwyddo ymarfer cynhwysol, yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chynllunio i ateb anghenion pobl ifanc, yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael effaith ar bobl ifanc a'u canlyniadau, a'i bod yn cael ei darparu gan weithlu sy'n brofiadol ac wedi'i gymhwyso'n briodol sy'n cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Ni ellir tanbwsleisio pwysigrwydd y Lefel Arian. Ar sail cydraddoldeb mae sylfaen darpariaeth gwaith ieuencid. Mae'n rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth o natur amrywiol a chynhwysol eu darpariaeth ar y lefel hon. Mae'n rhaid hefyd iddynt ddangos bod ganddynt raglen o weithgareddau sydd wedi'i chynllunio a'i darparu mewn partneriaeth â phobl ifanc, yn ogystal â pha effaith mae eu strategaethau cyfranogiad wedi'i chael ar y sefydliad a'u cymuned. Mae hwn yn gyfle i ddathlu sgiliau gweithwyr ieuencid a gweithwyr cymorth ieuencid, a sut maent wedi creu perthnasau o ymddiriedaeth gyda phobl ifanc. Ar y lefel hon, gall sefydliadau ddangos hefyd sut mae ymyriadau gwaith ieuencid a dysgu anffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol yn digwydd. Maent hefyd yn gallu dangos pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ddarparu gweithgareddau a sut mae'r rhain o fudd i bobl ifanc drwy ddatblygu sgiliau newydd a chadernid emosiynol a phersonol, ac os yw wedi galluogi'r bobl ifanc i symud ymlaen i fyd gwaith neu ddysgu pellach.

Mae [Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru](#) yn nodi gweledigaeth am ddyfodol lle:

*“mae gwaith ieuencid yn seiliedig ar hawliau, yn cael ei arwain gan bobl ifanc, ac yn cael ei gynllunio a'i gefnogi ar y cyd gan weithlu medrus o wirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu talu”.*

Mae'r Lefel Arian yn cynnwys pobl ifanc, y cwricwlwm, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu'r gweithlu.

## Safonau Ansawdd y Lefel Arian

Ym mhob un o lefelau'r Marc Ansawdd mae pedair safon ansawdd ac ym mhob safon ansawdd mae nifer o 'ddangosyddion' cysylltiedig. Yn rhan o broses ymgeisio'r Marc Ansawdd, mae gofyn i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i gefnogi pob dangosydd.

Gall sefydliadau ddefnyddio'r safonau ansawdd hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu gwaith ieuenctid, eu cwricwlwm a'u darpariaeth. Gallant hefyd gyfrannu at neu weithredu fel canllaw yn y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am y Marc Ansawdd.

Mae'r Safonau Ansawdd y Lefel Arian yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cydnabod ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ei fod wedi'i gynllunio i ateb anghenion pobl ifanc, ei fod yn cael effaith ar eu canlyniadau, a'i fod yn cael ei gyflwyno gan weithlu sydd wedi cymhwyso'n briodol ac sy'n cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Mae Safonau Ansawdd y Lefel Arian wedi'u rhestru yn y tabl isod.

<b>Arian: Mae gwaith ieuenctid yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn cael ei gynnig gan staff sydd wedi'u hyfforddi.</b>	
<b>Safon ansawdd</b>	<b>Dangosyddion</b>
<b>2.1 Cynnwys pobl ifanc</b>	<p>Mae gan y sefydliad strategaeth neu gynllun(iau) yn eu lle i sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol parhaus pobl ifanc.</p> <p>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso'i strategaeth neu ei gynllun sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol pobl ifanc ar bob lefel o ran gwneud penderfyniadau a chyfrannu at ei waith.</p> <p>Mae effaith cyfranogiad gweithredol pobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau'n cyfrannu at waith y sefydliad, a chaiff ei mesur a'i nodi.</p>

<p><b>2.2 Cwricwlwm</b></p>	<p>Mae gan y sefydliad gwricwlwm neu raglen o waith ieuenctid ac mae'r gweithlu'n hyderus am ei darparu'n gyson.</p> <p>Mae'r sefydliad yn cynnal dadansoddiad anghenion rheolaidd i lywio'r ystod a math y ddarpariaeth y bydd yn ei chynnig i bobl ifanc.</p> <p>Mae darpariaeth y sefydliad yn mynd i'r afael ag anghenion, diddordebau ac amgylchiadau gwahanol pobl ifanc.</p> <p>Mae pobl ifanc yn elwa ar gael eu cynnwys a chyfranogi yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir gan y sefydliad.</p>
<p><b>2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth</b></p>	<p>Mae gan y sefydliad ddull rhagweithiol o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei bolisi(bolisïau) a'i ymarfer.</p> <p>Mae gan y sefydliad ddull rhagweithiol tuag at ei ddefnydd o ddata a gwybodaeth wrth hyrwyddo polisi(polisïau) ac ymarfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.</p> <p>Mae polisi(polisïau) cydraddoldeb ac amrywiaeth y sefydliad yn cael eu gweithredu ac maent yn arwain at newid a gwelliant.</p>
<p><b>2.4 Datblygu'r gweithlu</b></p>	<p>Mae gan y sefydliad bolisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu.</p> <p>Mae'r sefydliad yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau a gwybodaeth, ac mae hyn yn amlwg wrth gyflwyno'i ddarpariaeth ac yn ymarfer ei weithlu.</p> <p>Mae gan y sefydliad weithlu sy'n addas at y diben o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.</p>

Mae gan bob un o'r safonau ansawdd 'ddangosyddion' cysylltiedig. Er mwyn helpu sefydliadau i ddatblygu hunanasesiad cywir, darperir disgrifyddion gradd ar gyfer pob dangosydd. Bwriedir i'r disgrifyddion gradd gynorthwyo sefydliadau i lunio barn am lefel eu perfformiad presennol. Mae'r disgrifyddion gradd wedi'u nodi isod.

- **Ymarfer da** – Mae perfformiad da at ei gilydd yn y maes hwn. Mae polisïau a chynlluniau'n gyfredol ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae trefniadau gweithio effeithiol sydd o fudd i bobl ifanc.
- **Angen rhywfaint o ddatblygu** – Mae polisïau a chynlluniau'n addas yn gyffredinol, er nad yw'r ymarfer bob amser yn gyson ac nid yw rhai pobl ifanc yn derbyn gwasanaeth o'r un ansawdd ag eraill. Mae rhai bylchau'n bodoli, ac mae'n fwriad gan y rheolwyr/arweinwyr fynd i'r afael â hwy.
- **Angen datblygiad sylweddol** – Nid yw polisïau'n cael eu deall yn eang na'u gweithredu'n gyson. Mae cynlluniau a threfniadau gweithio yn wan yn gyffredinol, gan effeithio'n andwyol ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc.

I fod yn gymwys ar gyfer Lefel Arian y Marc Ansawdd, mae'n rhaid i sefydliadau fod wedi cyflawni Lefel Efydd y Marc Ansawdd ac nawr mae'n rhaid cwblhau hunanasesiad gyda phortffolio o dystiolaeth a chyfranogi mewn proses asesu allanol i ddangos bod gradd 'ymarfer da' wedi'i chyflawni ar gyfer pob dangosydd yn y Lefel Arian hon. I gyflawni'r lefel hon, bydd sefydliadau sydd eisoes wedi cyflawni Lefel Efydd y Marc Ansawdd yn adeiladu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y lefel flaenorol er mwyn cyflawni'r Lefel Arian. Dylai sefydliadau sy'n ystyried ymgeisio am y Lefelau Arian ac Aur yr un pryd drafod yr opsiwn hwn gyda'r contractiwr.

Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â phob un o Safonau Ansawdd y Lefel Arian yn eu tro, gan nodi'r dangosyddion a'r disgrifyddion gradd ar gyfer pob un o'r safonau ansawdd ar y Lefel Arian hon. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob un o'r safonau ansawdd, gan gynnwys enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da a fydd yn helpu sefydliadau i farnu a darparu tystiolaeth o lefel eu perfformiad presennol neu ddatblygu hunanasesiad i baratoi ar gyfer ymgeisio am Lefel Arian y Marc Ansawdd.

## Safon Ansawdd: 2.1 Cynnwys pobl ifanc

Mae [Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion](#) (2018) yn diffinio ymarfer cyfranogol fel:

*“Annog a chefnogi pobl ifanc i fod yn bartneriaid a rhannu cyfrifoldebau am y cyfleoedd, y prosesau dysgu a’r strwythurau gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau ac ar eu hamgylcheddau eu hunain ac ar fywydau ac amgylcheddau eraill.”*

Mae cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn un o’r pum piler sy’n sylfaen i waith ieuenctid yng Nghymru. Mae Erthygl 12 o [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn \(CCUHP\)](#) (Saesneg yn unig) yn nodi bod gan blant yr hawl i ddweud beth maent yn credu dylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried.

Mae’r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith cyfranogiad pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a pha mor dda y mae sefydliadau:

- yn mynd ati i wrando ar bobl ifanc
- yn mynd ati i gynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau
- yn dangos sut mae safbwyntiau a barn pobl ifanc yn arwain at newid a gwelliant gwirioneddol i’r sefydliad/rhaglen
- wedi gweithredu [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc](#)
- wedi’u cynnwys yn Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol.



Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- strategaeth glir ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc a'u cynnwys yn weithredol
- bod pobl ifanc yn rhoi adborth yn rheolaidd am ansawdd ac ystod y gwaith ieuencid y maent yn ymgysylltu ag ef
- bod adborth pobl ifanc yn arwain at newid a gwelliant yn y gwasanaeth a bod pobl ifanc yn cael gwybod am y ffordd yr arweiniodd eu llais at newid.

## Disgrifyddion gradd

Safon Ansawdd Lefel Arian 2.1 Cynnwys pobl ifanc – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae gan y sefydliad strategaeth neu gynllun(iau) yn eu lle i sicrhau cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithredol parhaus pobl ifanc.	<p>Mae pobl ifanc yn cyfrannu at eu cymuned ac yn chwarae rôl weithredol mewn gweithredu cymdeithasol.</p> <p>Mae pobl ifanc yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, e.e. gyda fforymau iechyd, llais ieuencid, cynghorau ieuencid.</p> <p>Mae strategaeth neu gynllun byw yn ei le ar gyfer sicrhau cyfranogiad parhaus pobl ifanc.</p> <p>Mae ystod o ddulliau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cyfrannu at weledigaeth a gwaith y sefydliad.</p>	<p>Mae strategaeth neu gynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod ymwneud gweithredol yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar waith y sefydliad gyda phobl ifanc.</p> <p>Mae ymwneud gweithredol pobl ifanc o bryd i'w gilydd yn dylanwadu ar ddarparu, cynllunio, adnoddau, cyfathrebu a sicrwydd ansawdd.</p> <p>Mae cyfleoedd o bryd i'w gilydd i bobl ifanc ymwneud yn weithredol yn eu cymuned eu hunain.</p>	<p>Nid oes strategaeth na chynllun yn ei le i sicrhau bod ymwneud gweithredol yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar waith y sefydliad gyda phobl ifanc.</p> <p>Mae enghreifftiau unigol o ymwneud gweithredol ond mae strategaeth ar gyfer cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau eto i'w datblygu a'i gweithredu mewn modd cyson.</p> <p>Mae'r sefydliad eto i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ymwneud yn weithredol yn eu cymunedau eu hunain.</p>

	<p>Mae ymwneud gweithredol pobl ifanc yn dylanwadu ar ddarparu, cynllunio, adnoddau, cyfathrebu a sicrwydd ansawdd.</p> <p>Mae cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu'n weithredol ac ymwneud â'u prosiectau lleol dan arweiniad y gymuned.</p> <p>Mae pobl ifanc yn ymwybodol o sut y mae eu hymwneud gweithredol yn dylanwadu ar newidiadau/penderfyniadau ynghylch llywodraethiant y sefydliad ac mewn prosiect neu fentrau yn y gymuned leol.</p>	<p>O bryd i'w gilydd, mae pobl ifanc yn cael gwybod sut mae eu hymwneud gweithredol yn dylanwadu ar newidiadau/penderfyniadau i'r sefydliad/rhaglen/cymuned leol.</p>	<p>Nid yw pobl ifanc yn ymwybodol o sut y mae eu hymwneud gweithredol yn dylanwadu ar newidiadau/penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r sefydliad/rhaglen/cymuned leol.</p>
--	--	---	--

**Safon Ansawdd Lefel Arian 2.1 Cynnwys pobl ifanc – Disgrifyddion gradd**

<b>Dangosyddion</b>	<b>Ymarfer da</b>	<b>Angen rhywfaint o ddatblygu</b>	<b>Angen datblygiad sylweddol</b>
<p>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso'i strategaeth neu ei gynllun sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol pobl ifanc ar bob lefel o ran gwneud penderfyniadau a chyfrannu at ei waith.</p>	<p>Mae gan y sefydliad system gadarn yn ei lle ar gyfer monitro ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.</p> <p>Mae'r sefydliad wedi cwblhau hunanasesiad yn erbyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc, neu mae'n ymgysylltu'n weithredol â'r Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol.</p> <p>Mae'r sefydliad yn cyfrannu at, neu'n rhan o, gyngor ieuenctid neu fforwm ieuenctid sydd wedi'i drefnu'n lleol ac sy'n gynrychioliadol o ardal leol.</p>	<p>Mae systemau'n cael eu datblygu i fonitro ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.</p> <p>Mae'r sefydliad yn cynnal hunanasesiad ar hyn o bryd yn erbyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc neu safonau tebyg.</p>	<p>Mae ambell enghraifft unigryw o fonitro ymwneud gweithredol pobl ifanc ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.</p> <p>Nid yw'r sefydliad wedi cynnal hunanasesiad yn erbyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc neu safonau tebyg.</p> <p>Mae strategaeth neu gynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod ymwneud gweithredol yn cael ei ymgorffori ym mhob agwedd ar waith y sefydliad gyda phobl ifanc.</p>

**Safon Ansawdd Lefel Arian 2.1 Cynnwys pobl ifanc – Disgrifyddion gradd**

<b>Dangosyddion</b>	<b>Ymarfer da</b>	<b>Angen rhywfaint o ddatblygu</b>	<b>Angen datblygiad sylweddol</b>
<p>Mae effaith cyfranogiad gweithredol pobl ifanc o ran gwneud penderfyniadau'n cyfrannu at waith y sefydliad, a chaiff ei mesur a'i nodi.</p>	<p>O ganlyniad i ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, mae tystiolaeth o newid a gwelliant parhaus o fewn y sefydliad, dros gyfnod o ddwy flynedd.</p> <p>Mae pobl ifanc yn cael gwybod fel mater o drefn am y newidiadau a'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud mewn ymateb i'w barn.</p> <p>Mae ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau yn cael ei gydnabod, ei gofnodi a/neu ei achredu.</p>	<p>O ganlyniad i ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, mae tystiolaeth o newidiadau o fewn y sefydliad yn ystod y flwyddyn diwethaf.</p> <p>Mae cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod pobl ifanc yn cael mwy o gyfleoedd ar gyfer ymwneud yn weithredol er mwyn dylanwadu ar newid a gwelliant.</p>	<p>O ganlyniad i ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, mae enghreifftiau unigryw o newid.</p> <p>Mae ymrwymiad i wella ymwneud gweithredol pobl ifanc.</p>

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Strategaeth neu gynllun ar gyfer ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.
- Gosod targedau a monitro perfformiad mewn perthynas ag ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y sefydliad.
- Casglu data mewn perthynas â thargedau ar gyfer cynnwys pobl ifanc.
- Adnoddau, strwythurau a phrosesau ar gyfer cefnogi ymwneud gweithredol pobl ifanc.
- Cwblhau hunanasesiad Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc neu safonau tebyg.
- Ymrwymiad i'r CCUHP, yn enwedig Erthygl 12.
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc a gyhoeddir gan y sefydliad.
- Enghreifftiau o ymwneud pobl ifanc mewn:
  - cynllunio, cyflwyno, monitro a gwerthuso'r cwricwlwm
  - cynllunio prosiectau, rhaglenni, gweithgareddau a digwyddiadau
  - adolygu a gwerthuso prosiectau, rhaglenni, gweithgareddau a digwyddiadau
  - dylunio, comisiynu neu gyflwyno gwasanaethau.
- Tystiolaeth o gyfranogiad pobl ifanc ar bwyllgorau rheoli, pwyllgorau aelodau neu grwpiau tebyg yn eu canolfannau ieuencid a'u prosiectau eu hunain.
- Tystiolaeth o newid a gwelliant gweladwy o ganlyniad i ymwneud pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.
- Tystiolaeth o sut y mae adborth pobl ifanc wedi arwain at newid a gwelliant.
- Enghreifftiau o adborth i bobl ifanc ar newid a gwelliant o ganlyniad i'w hymwneud gweithredol.
- Enghreifftiau o ymwneud gweithredol pobl ifanc yn eu cymunedau, e.e. fforymau ieuencid, cyngorau ieuencid neu seneddau ieuencid.
- Data ar etholiadau ieuencid lleol a phrosesau democrataidd eraill.
- Tystlythyrau gan bobl ifanc.
- Enghreifftiau o ymwneud gweithredol pobl ifanc wrth recriwtio a dethol a phennu gwariant.
- Enghreifftiau o ddysgu a chyflawniad pobl ifanc o ganlyniad i ymwneud gweithredol.

## Safon Ansawdd: 2.2 Cwricwlwm

Mae [Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion](#) yn cydnabod pwysigrwydd addysg a bod â chwricwlwm o ansawdd ym mhob darpariaeth. Fel un o bum piler gwaith ieuenctid, nod gwaith ieuenctid addysgiadol yw:

*"galluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer eu datblygiad a'u boddhad personol eu hunain a chyfrannu at gymdeithas fel aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol".*

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar ba mor dda mae darpariaeth a gynlluniwyd ac ystod gweithgareddau y sefydliad yn:

- cefnogi ac yn darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol a rhai heb fod yn ffurfiol ar gyfer pobl ifanc, sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y sefydliad
- ateb anghenion pobl ifanc
- cyfrannu at wella canlyniadau personol a gobeithion bywyd pobl ifanc.

Y cwricwlwm yw'r holl weithgareddau a phrofiadau a ddarperir gan y sefydliad gydag ac ar gyfer pobl ifanc, a dylai:

- fanteisio ar ystod eang o weithgareddau addysgol a hamddenol wedi'u hategu gan bum piler gwaith ieuenctid fel y nodir yn *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*
- darparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu, dysgu, datblygu, mwynhau eu hunain, gwneud cynnydd, gwerthuso, a chydabod eu dysgu
- cynnwys cyfeiriadau at y dulliau o weithredu'r cwricwlwm
- cael ei gefnogi gan fframwaith o ddysgu wedi'i gynllunio.

Dylai fod datganiad cwricwlwm clir sy'n amlinellu sut mae'r sefydliad yn gweithio gyda phobl ifanc i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol ac yn eu cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn. Mae disgwyliad y dylai'r cwricwlwm fod yn eang, yn gytbwys, yn hyblyg ac yn gallu darparu cwmpas i ateb anghenion ystod o bobl ifanc.

Hefyd, dylai sefydliadau adolygu priodoldeb ac ansawdd y cwricwlwm a sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau sy'n newid.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos sut mae'r sefydliad yn:

- asesu anghenion pobl ifanc
- cynnwys pobl ifanc wrth iddo ddarparu a gwerthuso
- cynllunio i ateb anghenion pobl ifanc, a darparu tystiolaeth o'r modd y caiff eu cynlluniau eu datblygu a'u gweithredu
- cynorthwyo pobl ifanc i ymestyn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau
- hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc
- alinio'i waith gyda phobl ifanc gyda blaenoriaethau lleol, e.e. alinio'i nodau a'i amcanion ar gyfer eu gwaith gyda phobl ifanc gyda chynlluniau a strategaethau cenedlaethol, fel:
  - [Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru](#)
  - [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid](#) neu fersiynau dilynol o'r fframwaith hwn
  - [Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion](#)
  - [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc](#)
  - [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.](#)

## Disgrifyddion gradd

Lefel Arian Safon Ansawdd 2.2 Cwricwlwm – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae gan y sefydliad gwricwlwm neu raglen o waith ieuenctid ac mae'r gweithlu'n hyderus am ei darparu'n gyson.</p>	<p>Caiff y cwricwlwm ei gynllunio a'i gyflwyno'n effeithiol i ateb anghenion pobl ifanc ac mae'n ateb egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru.</p> <p>Mae'r gweithlu'n ymgysylltu â chyfleoedd datblygiad proffesiynol yn unol ag anghenion y sefydliad.</p> <p>Mae'r cwricwlwm yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Mae'r gweithlu'n hyderus o ran monitro a gwerthuso rhaglenni gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc.</p> <p>Mae'r gweithlu, ar bob lefel, yn gallu, yn hyderus ac yn gymhwysol, cynllunio, paratoi a hwyluso'r rhaglen gweithgareddau ieuenctid gyda phobl ifanc.</p>	<p>Mae cynlluniau yn eu lle i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n effeithiol, a'i fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Mae hyfforddiant, datblygu proffesiynol a goruchwyliaeth ar gyfer y gweithlu yn cael ei adolygu i gefnogi cynllunio a darparu gwaith ieuenctid effeithiol.</p> <p>Nid yw'r cwricwlwm yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y sefydliad.</p>	<p>Nid yw'r cwricwlwm yn cysylltu'n glir ag ateb anghenion pobl ifanc neu flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei weithredu'n effeithiol.</p>



**Lefel Arian Safon Ansawdd 2.2 Cwricwlwm – Disgrifyddion gradd**

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn cynnal dadansoddiad anghenion rheolaidd i lywio ystod a math y ddarpariaeth y bydd yn ei chynnig i bobl ifanc.</p> <p>Mae darpariaeth y sefydliad yn mynd i'r afael ag anghenion, diddordebau ac amgylchiadau gwahanol pobl ifanc.</p>	<p>Mae'r cwricwlwm a'r math o ddarpariaeth yn cael eu llywio a'u monitro'n gyson, a'u newid mewn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Mae cyswllt cadarn rhwng asesiadau o anghenion pobl ifanc a newidiadau a wneir i'r ystod a'r math o ddarpariaeth a gynigir iddynt.</p> <p>Mae'r sefydliad wedi dadansoddi'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog lle y bo'n briodol.</p>	<p>Mae gwybodaeth am anghenion yn cael ei hasesu ond mae eto i'w dadansoddi'n systemataidd.</p> <p>Mae enghreifftiau o gysylltiadau rhwng asesiadau o anghenion pobl ifanc a newidiadau a wneir i'r ystod a'r math o ddarpariaeth a gynigir iddynt.</p>	<p>Tystiolaeth gyfyngedig sydd o asesu anghenion.</p> <p>Nid yw'r ystod a'r math o ddarpariaeth eto wedi'u llywio gan ganlyniadau dadansoddi anghenion pobl ifanc.</p>

**Lefel Arian Safon Ansawdd 2.2 Cwricwlwm – Disgrifyddion gradd**

<b>Dangosyddion</b>	<b>Ymarfer da</b>	<b>Angen rhywfaint o ddatblygu</b>	<b>Angen datblygiad sylweddol</b>
<p>Mae pobl ifanc yn elwa ar gael eu cynnwys a chyfranogi yn y ddarpariaeth gwaith ieuencid a gynigir gan y sefydliad.</p>	<p>Mae pobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy ymgysylltu â chwricwlwm/darpariaeth gwaith ieuencid.</p> <p>Mae pobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu sgiliau personol a chymdeithasol drwy ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid.</p> <p>Mae enghreifftiau helaeth o sut mae ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.</p>	<p>Mae rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid.</p> <p>Mae rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn datblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol drwy ymgysylltu â darpariaeth gwaith.</p> <p>Mae rhai enghreifftiau o sut mae ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.</p>	<p>Yn sgil ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid, mae anghysondeb yn natblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc.</p> <p>Prin yw'r enghreifftiau o sut mae ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid wedi cyfrannu'n gadarnhaol at agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc.</p>

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Cwricwlwm neu ddatganiad cwricwlwm y sefydliad.
- Tystiolaeth o sut mae cwricwlwm y sefydliad yn cysylltu â phum piler gwaith ieuencid (fel y nodir yn *Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*).
- Mae'r sefydliad wedi nodi cysylltiadau rhwng ei gwricwlwm a chynlluniau a/neu strategaethau lleol a chenedlaethol.
- Mae'r sefydliad yn gallu dangos sut mae canlyniadau asesiadau o anghenion a dadansoddiadau, proffiliau cymunedol neu adroddiadau wedi llywio newid o fewn y sefydliad.
- Mae'r sefydliad yn gallu dangos sut mae adborth, gwerthuso a mewnbwn pobl ifanc yn y broses o gynllunio yn llywio newidiadau i ystod, math a chymysgedd y ddarpariaeth a gynigir fel mater o drefn.
- Cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu, gan gynnwys goruchwyliaeth, arfarnu a hyfforddiant i gefnogi gweithrediad effeithiol y cwricwlwm.
- Tystiolaeth bod y gweithlu yn mynychu cyfleoedd datblygu proffesiynol sy'n cefnogi gweithrediad effeithiol y cwricwlwm.
- Enghreifftiau o bobl ifanc yn cynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni gwaith ieuencid.
- Canlyniadau arolwg defnyddwyr pobl ifanc a thystiolaeth o waith dilynol.
- Enghreifftiau o gofnodion sesiynau/prosiectau a chynlluniau gweithredu'r sefydliad.
- Cwblhau Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc Cymru.
- Astudiaethau achos/data sy'n dangos bod ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuencid wedi gwella canlyniadau neu obeithion bywyd pobl ifanc.
- Astudiaethau achos sy'n dangos dealltwriaeth y gweithlu o sut mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion a blaenoriaethau ehangach y sefydliad ar gyfer pobl ifanc.
- Cynlluniau busnes/cyflawni/gweithredol ac adroddiadau'r sefydliad.
- Cynlluniau a gwerthusiadau pobl ifanc.
- Portffolios pobl ifanc ar gyfer dyfarniadau achrededig yn sgil ymgysylltu â'r ddarpariaeth a gynigir gan y sefydliad.
- Asesiad o anghenion o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog i bennu anghenion pobl ifanc.
- Asesiad a dadansoddiad o anghenion siaradwyr Cymraeg a'r cynlluniau sy'n deillio ohonynt, a'u gweithrediad.
- Tystiolaeth o ymgynghori â phobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth a deall yn well pa weithgareddau maent yn dymuno'u cyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg a pha wasanaethau maent yn dymuno eu cael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio Cymraeg yn anffurfiol mewn lleoliadau gwaith ieuencid.
- Tystiolaeth o ddatblygu'r gweithlu i wella ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i'w galluogi i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.

## Safon Ansawdd: 2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae [Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion](#) yn pwysleisio pwysigrwydd cynhwysiant a chyfle cyfartal. Mae'n disgrifio ymarfer cynhwysol fel:

*“galluogi pobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau ac ymddygiad cadarnhaol mewn perthynas â:*

- *hunaniaeth ac amrywiaeth hiliol, cymdeithasol a diwylliannol;*
- *treftadaeth;*
- *ieithoedd a gwerth eu hiaith eu hunain ac ieithoedd eraill;*
- *dinasyddiaeth;*
- *parchu dewisiadau pobl eraill”.*

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar sut mae polisiâu ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gwella mynediad pobl ifanc at gyfleoedd gwaith ieuenctid yn ogystal â'r canlyniadau maent yn eu cyflawni.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- bod gan y sefydliad bolisiâu cyfoes yn eu lle, a bod cynlluniau gweithredu i wella mynediad a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai gael profiad o anfantais o ganlyniad i anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, bod yng ngofal awdurdod lleol, tras, crefydd neu gred
- bod gan y sefydliad weithdrefnau monitro ac adrodd yn eu lle i ddangos lefelau presenoldeb gwahanol grwpiau o bobl ifanc, e.e. yn ôl ethnigrwydd, rhyw, anabledd, diwylliant neu dras
- effaith polisi ac ymarfer ar gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad o wahanol grwpiau o bobl ifanc, e.e. yn ôl ethnigrwydd, rhyw, anabledd, diwylliant neu dras
- hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyfleoedd datblygu a gynigir ac a fynychir gan y gweithlu
- bod pobl ifanc wedi ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy fynychu darpariaeth gwaith ieuenctid.

## Disgrifyddion gradd

Lefel Arian Safon Ansawdd 2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae gan y sefydliad ddull rhagweithiol o hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei bolisi(bolisiau) a'i ymarfer.</p>	<p>Mae gweithdrefnau trylwyr ar gyfer defnyddio data i fonitro effaith polisiau ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Mae rhaglen o gyfleoedd datblygu'r gweithlu sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Mae'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Mae pobl ifanc wedi ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Mae gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu yn cael eu cyfathrebu i bobl ifanc, y gweithlu a rhanddeiliaid eraill.</p>	<p>Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfoes ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu.</p> <p>Mae cynlluniau i ddarparu cyfleoedd datblygu'r gweithlu sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Mae rhai enghreifftiau o sut yr eir i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cwricwlwm.</p> <p>Mae gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu yn eu lle gyda chynlluniau i sicrhau bod pobl ifanc, y gweithlu a rhanddeiliaid eraill yn gwybod sut i'w defnyddio.</p>	<p>Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei le ond mae'r cynllun gweithredu eto i'w ddatblygu.</p> <p>Mae'r gweithlu eto i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Eir i'r afael yn anghyson â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn y cwricwlwm.</p> <p>Mae gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu eto i'w datblygu a'u gweithredu.</p>

	<p>Mae cwynion ynghylch aflonyddu a gwahaniaethu yn cael eu recordio a'u monitro i sicrhau eu bod wedi'u hymchwilio ac yr aed i'r afael â nhw'n effeithiol.</p> <p>Mae'r sefydliad wedi cynnal dadansoddiad o'r defnydd o ddarpariaeth Gymraeg ac mae pobl ifanc yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog lle y bo'n briodol.</p> <p>Mae pobl ifanc gyda nodweddion gwarchoddedig 'cymuned fuddiant' yn cael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel lle y bo'n briodol.</p>		
--	---	--	--

**Lefel Arian Safon Ansawdd 2.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth – Disgrifyddion gradd**

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae gan y sefydliad ddull rhagweithiol tuag at ei ddefnydd o ddata a gwybodaeth wrth hyrwyddo polisi(polisiau) ac ymarfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.</p>	<p>Mae gweithdrefn gadarn ar gyfer defnyddio data i fonitro effaith polisi(polisiau) ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Mae data ar lefelau presenoldeb, cyflawniad a chynnydd pobl ifanc a allai gael profiad o anfantais yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi er mwyn nodi meysydd ar gyfer gwella a llywio cynlluniau gweithredu ac ymarfer.</p>	<p>Mae cynllun i wella gweithdrefnau ar gyfer defnyddio data i fonitro effaith polisi(polisiau) ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â nodi meysydd ar gyfer gwella.</p> <p>Mae data ar lefelau presenoldeb grwpiau gwahanol o bobl ifanc a allai gael profiad o anfantais yn cael ei gasglu ac mae cynlluniau yn eu lle i wella cywirdeb a phrosesau dadansoddi.</p>	<p>Mae prosesau casglu a monitro data yn cael eu datblygu.</p>
<p>Mae polisi(polisiau) cydraddoldeb ac amrywiaeth y sefydliad yn cael eu gweithredu ac maent yn arwain at newid a gwelliant.</p>	<p>Mae polisi(polisiau) ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn arwain at wella lefelau presenoldeb a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai gael profiad o anfantais.</p> <p>Mae'r sefydliad yn galluogi pobl ifanc a'r gweithlu i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.</p>	<p>Mae cynlluniau i wella lefelau presenoldeb a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai fod yn cael profiad o anfantais yn cael eu datblygu.</p> <p>Mae enghreifftiau o'r sefydliad yn galluogi'r gweithlu a phobl ifanc i archwilio cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p>	<p>Tystiolaeth gyfyngedig sydd o wella lefelau presenoldeb a chanlyniadau i grwpiau o bobl ifanc a allai gael profiad o anfantais.</p> <p>Mae'r gweithlu a phobl ifanc eto i'w hymgysylltu mewn gweithgarwch sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth.</p>

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfoes gyda chynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Rhaglen o gyfleoedd hyfforddi a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Enghreifftiau o sut mae cyfleoedd datblygu yn gwella gallu'r gweithlu i archwilio a mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth gyda phobl ifanc.
- Casglu a dadansoddi data ar y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau o blith gwahanol grwpiau o bobl ifanc, a sut y caiff hyn ei ddefnyddio i lywio cynlluniau.
- Adroddiadau monitro ac adolygu cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch gwahaniaethu ac aflonyddu, dystiolaeth o sut y caiff y rhain eu cyfathrebu i bobl ifanc, staff a rhanddeiliaid, a thystiolaeth o sut y caiff cwynion eu trin.
- Trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y drefn gwyno.
- Enghreifftiau o asesu anghenion grwpiau penodol o bobl ifanc, e.e. rhai a allai gael profiad o anfantais.
- Enghreifftiau o dargedu grwpiau penodol o bobl ifanc.
- Dadansoddi lefelau presenoldeb a chanlyniadau grwpiau penodol o bobl ifanc, e.e. rhai a allai gael profiad o anfantais o ganlyniad i anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, bod yng ngofal awdurdod lleol, tras, crefydd neu gred.
- Enghreifftiau o sut mae gweithredu polisi(polisiau) ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi gwella presenoldeb a chanlyniadau ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc, e.e. rhai a allai gael profiad o anfantais o ganlyniad i anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, bod yng ngofal awdurdod lleol, tras, crefydd neu gred.
- Enghreifftiau o sut mae gweithredu polisi(polisiau) ac ymarfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gwella profiadau pobl ifanc o gael mynediad at waith ieuenctid a chyfranogi ynddo.



## Safon Ansawdd: 2.4 Datblygu'r gweithlu

Mae [Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru](#) yn cydnabod y dylai pobl ifanc gael eu cefnogi gan ymarferwyr gwaith ieuenctid medrus a chymwys. Mae gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol yn hanfodol er mwyn sicrhau y darperir gwaith ieuenctid o ansawdd uchel. Mae'r term 'gweithlu' yn cynnwys staff cyflogedig, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a phobl ifanc a allai fod yn wirfoddolwyr neu'n uwch aelodau.

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith cyfleoedd datblygu proffesiynol a sut y cânt eu hasesu. Mae disgwyl i'r sefydliad hyrwyddo cyfleoedd datblygu proffesiynol hygyrch i'w weithlu. Mae'r term 'datblygu proffesiynol' yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau megis hyfforddiant, mentora, sesiynau briffio, cysgodi, goruchwyllo myfyriol, cymryd rhan mewn dysgu gweithredol a chymunedau ymarfer.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- bod gan y sefydliad bolisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o rôl dysgu heb fod yn ffurfiol
- bod y sefydliad yn buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu
- bod y sefydliad yn cymryd camau i sicrhau bod ganddo weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol perthnasol i'w rolau lle bo angen
- sut mae'r sefydliad yn asesu anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu ac yn datblygu cynlluniau i ateb yr anghenion hynny
- sut mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd ac effaith cyfleoedd hyfforddi a datblygu.

## Disgrifyddion gradd

Lefel Arian Safon Ansawdd 2.4 Datblygu'r gweithlu – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae gan y sefydliad bolisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu.	<p>Caiff polisi/strategaeth datblygu'r gweithlu ei gymhwyso'n gyson i bob un o'i feysydd gwaith gyda phobl ifanc.</p> <p>Mae'r gweithlu'n ymwybodol o gyfleoedd datblygu proffesiynol.</p> <p>Caiff datblygiad proffesiynol ei gefnogi gan brosesau rheoli perfformiad, goruchwyllo ac arfarnu rheolaidd.</p>	<p>Mae gan y sefydliad bolisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu nad yw eto wedi cael ei gymhwyso ym mhob un o'i feysydd gwaith gyda phobl ifanc, neu mae eto i gael ei gymhwyso'n gyson i bob aelod o'r gweithlu.</p> <p>Mae pob aelod o'r gweithlu'n ymwybodol o gyfleoedd datblygu proffesiynol.</p> <p>Mae'r gweithlu'n cael ei oruchwyllo a'i werthuso'n rheolaidd.</p>	<p>Mae polisi neu strategaeth datblygu gweithlu'r sefydliad eto i gael ei ddatblygu neu ei roi ar waith yn llawn.</p> <p>Mae staff cyflogedig yn ymwybodol o gyfleoedd datblygu proffesiynol ond nid yw'r rhain wedi'u cynnig i wirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a phobl ifanc y sefydliad.</p> <p>Caiff gwaith goruchwyllo a gwerthuso ei gyflawni ar sail <i>ad hoc</i>.</p>

**Lefel Arian Safon Ansawdd 2.4 Datblygu'r gweithlu – Disgrifyddion gradd**

<b>Dangosyddion</b>	<b>Ymarfer da</b>	<b>Angen rhywfaint o ddatblygu</b>	<b>Angen datblygiad sylweddol</b>
<p>Mae'r sefydliad yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau a gwybodaeth, ac mae hyn yn amlwg wrth gyflwyno'i ddarpariaeth ac yn ymarfer ei weithlu.</p>	<p>Mae cyfleoedd datblygu'r gweithlu'n gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth gwaith ieuentid.</p> <p>Mae anghenion datblygiadol y gweithlu'n cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae datblygiad y cyfleoedd a ddarperir o ganlyniad yn gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth gwaith ieuentid.</p> <p>Mae'r gweithlu'n cael mynediad at, ac yn cymryd rhan mewn, ystod amrywiol o weithgarwch datblygiad proffesiynol parhaus.</p> <p>Mae gweithgareddau datblygu proffesiynol yn cael eu darparu mewn modd, ac ar adegau, sy'n sicrhau eu bod yn hygyrch i'r gweithlu cyfan.</p>	<p>Mae cynlluniau i sicrhau proses fwy strwythuredig ar gyfer asesu a mynd i'r afael ag anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.</p> <p>Mae'r sefydliad yn cymryd camau i wella ystod ac amrywiaeth cyfleoedd datblygu proffesiynol.</p>	<p>Mae ymgysylltiad mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol yn anghyson.</p> <p>Mae cyfleoedd datblygu proffesiynol eto i'w cysylltu ag asesiad systematig o anghenion y gweithlu.</p> <p>Mae ansawdd ac effaith cyfleoedd datblygu proffesiynol eto i'w monitro a'u gwerthuso.</p>

	<p>Caiff adborth a gwerthusiadau eu defnyddio i asesu a gwella ansawdd ac effaith cyfleoedd datblygu proffesiynol.</p> <p>Mae'r sefydliad yn defnyddio nodiadau goruchwyllo a systemau arfarnu perfformiad wrth nodi anghenion hyfforddiant gwirfoddolwyr a staff.</p> <p>Mae cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus mewn arweinyddiaeth a rheoli ar gael i staff a gwirfoddolwyr.</p>		
--	---	--	--

<b>Lefel Arian Safon Ansawdd 2.4 Datblygu'r gweithlu – Disgrifyddion gradd</b>			
<b>Dangosyddion</b>	<b>Ymarfer da</b>	<b>Angen rhywfaint o ddatblygu</b>	<b>Angen datblygiad sylweddol</b>
Mae gan y sefydliad weithlu sy'n addas at y diben o weithio'n effeithiol gyda phobl ifanc yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.	Mae cyfleoedd datblygu'r gweithlu yn gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth gwaith ieuenctid.	Mae cynlluniau i sicrhau bod cyfleoedd datblygu proffesiynol yn cael eu cyflwyno mewn modd ac ar adegau sy'n sicrhau eu bod yn hygyrch i'r gweithlu cyfan.	Mae'r sefydliad eto i asesu sut mae datblygu'r gweithlu yn gwella ansawdd ac effaith gwaith ieuenctid.

	<p>Mae'r cymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i ateb anghenion pobl ifanc a nodau'r sefydliad wedi cael eu nodi.</p> <p>Mae gan fwyafrif y gweithlu gymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i ateb anghenion pobl ifanc a nodau'r sefydliad, neu maent yn gweithio tuag atynt.</p> <p>Mae'r sefydliad yn cydnabod ac yn dathlu ymgysylltiad y gweithlu mewn datblygu proffesiynol ac achredu.</p>	<p>Mae cynlluniau i ddefnyddio adborth a gwerthusiadau i asesu ansawdd ac effaith y cyfleoedd datblygu proffesiynol.</p> <p>Mae gan y sefydliad gynlluniau i asesu sut mae datblygu'r gweithlu yn gwella ansawdd ac effaith gwaith ieuencid.</p> <p>Mae'r cymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i ateb anghenion pobl ifanc a nodau'r sefydliad yn cael eu nodi.</p> <p>Mae gan rai o aelodau'r gweithlu gymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i ateb anghenion pobl ifanc ac amcanion y sefydliad, neu maent yn gweithio tuag atynt.</p>	<p>Nid yw cymwysterau proffesiynol sydd fwyaf priodol i ateb anghenion pobl ifanc a nodau'r sefydliad wedi'u nodi hyd yn hyn.</p> <p>Nid oes proses systematig i ddarparu cyfleoedd i'r gweithlu ennill cymwysterau proffesiynol perthnasol.</p>
--	--	---	--

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Polisi neu strategaeth datblygu'r gweithlu'r sefydliad.
- Prosesau ar gyfer nodi anghenion datblygu proffesiynol y gweithlu fel unigolion a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd, e.e. archwiliadau hyfforddiant a chymwysterau.
- Cynllun hyfforddi a datblygu'r sefydliad gyda thystiolaeth o gysylltiadau â blaenoriaethau polisi sefydliadol, lleol a chenedlaethol.
- Enghreifftiau o addasu cyfleoedd datblygu proffesiynol i sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl ag anableddau, staff rhan-amser a gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a phobl ifanc.
- Polisi a gweithdrefnau goruchwyllo ac arfarnu'r sefydliad.
- Cofnodion goruchwyllo, adolygu perfformiad ac arfarnu'r sefydliad.
- Cyhoeddusrwydd y sefydliad ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd datblygu proffesiynol.
- Sesiynau briffio'r sefydliad ar gyfer y gweithlu ar ddatblygiadau cenedlaethol a lleol mewn gwaith ieuencid a gwasanaethau eraill ar gyfer pobl ifanc.
- Canran o gyllideb y sefydliad sy'n cael ei gwario ar hyfforddiant/datblygu'r gweithlu.
- Adborth o arolygon (pobl ifanc, rhanddeiliaid a'r gweithlu) ar ansawdd gweithgareddau datblygu gweithlu'r sefydliad.
- Niferoedd/cyfrannau o weithlu'r sefydliad sydd â chymwysterau proffesiynol priodol.
- Niferoedd/cyfrannau o weithlu'r sefydliad sy'n gweithio tuag at gymwysterau proffesiynol priodol.
- Niferoedd/cyfrannau o aelodau o weithlu'r sefydliad sydd heb gymhwyster.
- Cymeradwyaeth drwy fframweithiau eraill (megis Buddsoddwyr mewn Pobl a Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr).
- Hunanasesiadau'r sefydliad yn erbyn safonau ansawdd ar gyfer datblygu'r gweithlu, e.e. Marc Ansawdd ar gyfer datblygu'r gweithlu CWVYS (Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuencid Cymru) neu Safonau Datblygu'r Gweithlu Marc Ansawdd Drafft Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru.
- Enghreifftiau o sut mae gwaith datblygu gweithlu'r sefydliad wedi arwain at wella'r ddarpariaeth a chanlyniadau i bobl ifanc.

## Crynodeb a'r camau nesaf

Ar ôl darllen y ddogfen hon, dylai sefydliadau fod yn gyfarwydd bellach â'r safonau ansawdd, y dangosyddion a'r disgrifyddion gradd ar gyfer Lefel Arian y Marc Ansawdd. Gallai sefydliadau fod wedi defnyddio'r Safonau Ansawdd Lefel Arian yma fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuenctid neu i lywio'r broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig i ymgeisio am Lefel Arian y Marc Ansawdd, ar ôl bod yn llwyddiannus eisoes yn ennill Lefel Efydd y Marc Ansawdd. Tra'n gweithio drwy'r tair lefel, gallai rhai sefydliadau ddymuno ymgeisio am y Lefelau Arian ac Aur ar yr un pryd a dylent drafod yr opsiwn hwn gyda'r contractiwr. Fodd bynnag, mae'n rhaid eu bod eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn ennill Lefel Efydd y Marc Ansawdd fel isafswm.

Os ydych yn teimlo'ch bod yn barod i ymgysylltu â'r Marc Ansawdd, neu os hoffech wybod mwy, gallwch naill ai siarad â'r contractiwr presennol, neu gysylltu â'r Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid a fydd yn trosglwyddo'ch manylion ymlaen atynt. Gellir cysylltu â'r Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid drwy e-bostio [gwaithieuenctid@llyw.cymru](mailto:gwaithieuenctid@llyw.cymru).